# Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**2013 dccc 7**

*Darpariaethau eraill*

**9 Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru a phob awdurdod lleol, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan Rannau 3, 4, 5, 9 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (creu, cynnal a chadw a gwella priffyrdd, ymyrryd â phriffyrdd a chaffael etc. tir), i'r graddau y bo'n ymarferol gwneud hynny, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru a phob awdurdod lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer eu swyddogaethau o dan—

(a) Rhannau 1, 2, 4 a 7 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (rheoleiddio traffig cyffredinol ac arbennig, mannau parcio a rhwystrau),

(b) Rhan 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (gwaith stryd), ac

(c) Rhan 2 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (rheoli'r rhwydwaith gan awdurdodau traffig lleol).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 14(1)**

**I2** A. 9 mewn grym ar 25.9.2014 gan O.S. 2014/2589, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Adran 9.